

Dyma'r safonau gofynnol mae'n rhaid i sefydliad eu cyfarfod **er mwyn bod yn gymwys i gael arian gan Sefydliad Cymunedol Cymru**. Am ragor o bolisiau, gweithdrefnau a chefnogaeth ar gael i'r sector [cliciwch yma](#).

Er mwyn bod yn gymwys am grant, mae'n rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol fel safon ofynnol:

Llywodraethiant

- Corff Llywodraethu gydag o leiaf 3 aelod (e.e. Aelodau Pwyllgor, Ymddiriedolwyr neu, ar gyfer cwmnïau, Cyfarwyddwyr). Os yw'r aelodau'n perthyn i'w gilydd, mae'n rhaid bod yna aelod annibynnol pob amser.
- Dylai'r Corff Llywodraethu gyfarfod o leiaf bob chwarter.
- Talu aelodau'r Corff Lywodraethu:
 - mae'n rhaid cynnwys y manylion mewn cytundeb ysgrifenedig ffurfiol.
 - ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i hyn gael ei gynnwys yn y ddogfen lywodraethu neu ddogfen arall a gytunwyd gan y Comisiwn Elusennau neu'r Llysoedd.
 - ar gyfer Sefydliadau Corfforedig Elusennol, mae'n rhaid i'r manylion hynny gael eu dangos yn glir yn y ddogfen lywodraethu.
- Dylai'r ddogfen lywodraethu fod wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y Cadeirydd neu Drysorydd y Corff Llywodraethu neu Gyfarwyddwr ac mae'n rhaid iddi ddatgan yn glir:
 - nad yw'r Sefydliad er elw, neu fod yna gymal yn ei ddogfen lywodraethu yn dangos yn glir fod yr holl incwm yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y sefydliad ac nad yw'n cael ei ddosbarthu i aelodau, rhanddeiliaid na pherchnogion.
 - bod yna gymal diddymu/cloi ar gyfer asedau yn gofyn i'r asedau cael eu dosbarthu i sefydliad gyda nodau elusennol tebyg petai'r elusen yn cau.
 - ar gyfer Sefydliadau Corfforedig Elusennol, mae'n rhaid i'r cymal diddymu/cloi ar gyfer asedau enwi'r sefydliad a ddewisir.
- Sylwer: Os ydych chi'n Gwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) sydd wedi'i gofrestru yn ystod y 18 mis diwethaf, nid ydych yn gymwys i wneud cais am y cyllid hwn. Os byddwch yn gwneud cais o fewn eich 18 mis cyntaf o fasnachu, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

Ariannol

- Darparu'r cyfrifon swyddogol diweddaraf neu ddalen incwm/gwariant, fod wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y Cadeirydd neu Drysorydd y Corff Llywodraethu neu Gyfarwyddwr. Os yw'r ddogfen dros 18 mis oed, dylid cynnwys eglurhad.
- Darparu rhagolwg ariannol os yw'r sefydliad yn y 12- 8 mis cyntaf o weithredu. Dylai'r rhagolwg gynnwys o leiaf:
 - incwm a ragwelir.
 - gwariant a ragwelir.
 - ychydig o fanylion ynghylch cynhyrchu incwm.

- Isafswm o 2 awdurdodwr taliadau anghysylltiedig.
- Dylai fod gan y sefydliad gyfrif banc yn ei enw ei hun. Gwneir taliadau grant trwy drosglwyddiad BACS, felly gofynnir am ddatganiad banc diweddar neu dalu slip i ddangos tystiolaeth o hyn.
- Fel Ariannwr Cyflog Byw, rydym yn annog yr holl sefydliadau rydym yn eu hariannu i dalu'r Cyflog Byw i'r holl weithwyr, yn hytrach na'r isafswm cyflog. Os nad ydych chi eisoes, rydym yn eich annog i gael eich achredu fel Cyflogwr Cyflog Byw gyda Sefydliad Living Wage.

Diogelu

- Polisi diogelu yn enw'r sefydliad.
- Dylid rhoi hyfforddiant rheolaidd ar Bolisi Diogelu y sefydliad ar waith ar gyfer y corff llywodraethu sydd â chyfrifoldeb yn y pen draw.
- Hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff, gwirfoddolwyr, sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc, a/neu oedolion agored i niwed:
 - rhaid i hyfforddiant fod yn briodol i natur y gwaith, ymdrin â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, a'i adnewyddu'n rheolaidd.
- Cynhelir gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Disclosure Scotland, neu Access NI ar bawb sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed (gallai hyn gynnwys staff, pwyllgor rheoli, ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr).
- Mae'r Polisi Diogelu yn cynnwys:
 - diffiniad o ddiogelu ac amlinelliad o'r ymrwymiad i ddiogelu a diogelu lles pawb sy'n defnyddio ei wasanaeth.
 - diffiniad ar gyfer oedolion bregus a'r gwahanol fathau o gamdriniaeth a brofir gan blant ac oedolion agored i niwed.
 - camau clir i'w cymryd os bydd digwyddiad neu ddatgeliad, gan gynnwys pwy i'w hysbysu a sut i gysylltu â nhw o fewn oriau agor a'r tu allan iddynt.
 - Cynrychiolydd Diogelu a enwir yn y sefydliad. Gallai hon fod yn swydd ddynodedig, megis Swyddog Amddiffyn Plant neu uwch aelod o staff fel arfer, ac yn ddelfrydol dylai gynnwys cysylltiadau awdurdodau lleol, cyswllt yr heddlu neu fwrdd diogelu lleol.
 - y dyddiad y cafodd ei adolygu ddiwethaf, gan bwy, a dyddiad a awgrymir ar gyfer yr adolygiad nesaf (yr arfer gorau yw adolygu bob blwyddyn a/neu pan fydd deddfwriaeth yn newid).

Polisiau Eraill

- Mae polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn ddatganiad ffurfiol neu set o ganllawiau sy'n amlinellu ymrwymiad sefydliad i hyrwyddo cydraddoldeb, cofleidio amrywiaeth, a meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol.

- Os ydych yn gofyn am, yn derbyn neu'n cadw unrhyw ddata personol, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â GDPR. Mae uchafswm dirwyon hyd at £20 miliwn neu 4% o incwm sefydliad, ond mae hefyd yn bosibl i grwpiau elusennol neu lawr gwlad gael dirwyon llai. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Bolisiau Diogelu Data a GDPR yn y Sector Elusennol [yma](#).
- Os yw'ch sefydliad yn benthyg offer TG, naill ai i wirfoddolwyr neu staff, dylech gael polisi TG ar waith. Mae hyn nid yn unig i amddiffyn yr offer ond hefyd i sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio at ddibenion penodol, ac nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddefnydd anfoesol neu annerbyniol.

Yswiriant

- Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i sefydliadau gwirfoddol gael yswiriant atebolrwydd cyflogwyr i gwmpasu gwirfoddolwyr a gweithwyr. Mae yswiriant atebolrwydd cyflogwyr yn talu cost digolledu gwirfoddolwyr a gweithwyr sy'n cael eu hanafu yn y gwaith neu'n mynd yn sâl trwyddynt.
- Mae'r llywodraeth yn cynghori unrhyw sefydliadau gwirfoddol sy'n berchen ar dir neu adeiladau neu'n eu meddiannu, sy'n cynnal digwyddiadau/gweithgareddau codi arian ac sy'n delio ag aelodau'r cyhoedd i ystyried yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae'r yswiriant hwn yn amddiffyn eich sefydliad rhag hawliadau cyfreithiol gan unrhyw un a allai gael ei anafu neu y mae ei eiddo personol yn cael ei golli neu ei ddifrodi o ganlyniad i'ch gweithgareddau.